

GWASANAETHAU CEFNOGOL



Gwybodaeth i Rieni a Gofalwyr



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Betsi Cadwaladr
University Health Board



Derwen

Tîm Integredig Plant Anabl ydy Derwen sy'n gweithio hefo plant a phobl ifanc 0 - 18 oed yng Ngwynedd. Mae'r Tîm yn anelu at gefnogi teuluoedd, gofalwyr a'r gymuned ehangach er mwyn hybu iechyd a lles plant a phobl ifanc anabl yng Ngwynedd.



Gwasanaethau Cefnogol

Mae'r **Gwasanaethau Cefnogol** yn rhan o Derwen, ac yn cael eu rheoli a'u trefnu o fewn Adran Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Gwynedd.

Mae'r Gwasanaethau Cefnogol yn darparu **Gweithwyr Cefnogol** er mwyn:

- ◆ Galluogi plentyn neu berson ifanc i gymryd rhan mewn gweithgareddau yn y gymuned, a datblygu sgiliau fel sgiliau chwarae;
- ◆ Cynnig seibiant i ofalwyr trwy fynd â'r plentyn neu'r person ifanc allan i'r gymuned;
- ◆ Gofalu am blentyn neu berson ifanc yn ei gartref ei hun;
- ◆ Darparu gofal dros nos yn y cartref, pan yn ymarferol bosib.



Cymwysterau a Hyfforddiant

Mae **Gweithwyr Cefnogol** yn derbyn hyfforddiant cyffredinol mewn pynciau fel Cymorth Cyntaf, Ymwybyddiaeth o Amddiffyn Plant, a Chodi a Thrin. Yn ogystal, maen nhw'n derbyn hyfforddiant sy'n ymwneud ag anghenion neu gyflwr plentyn unigol.



Terfynu'r Gwasanaeth

- ◆ Mae derbyn gwasanaeth yn ddibynnol ar asesiad o angen gan weithiwr allweddol / gweithiwr cyswllt proffesiynol.
- ◆ Os bydd asesiad yn dangos nad oes angen y gwasanaeth mwyach, bydd y gwasanaeth yn dod i ben.
- ◆ Os bydd Cynllun Gofal yn nodi bod y gwasanaeth yn cael ei ddarparu am gyfnod penodol, bydd y gwasanaeth hwn yn dod i ben ar y dyddiad a drefnwyd ymlaen llaw.
- ◆ Nid ydym yn darparu Gwasanaethau Cefnogol ar gyfer oedolion. Bydd y gwasanaeth yn dod i ben pan fydd person ifanc yn cael ei ben-blwydd yn 18 oed.
- ◆ Os na fydd y Defnyddiwr Gwasanaeth a theuluoedd yn glynu at delerau ac amodau'r gwasanaeth, gall hyn effeithio ar barhad y gwasanaeth.

Canslo

- ◆ Os ydy Defnyddiwr Gwasanaeth eisiau canslo sesiwn, rhaid iddo roi gwybod i'r Swyddog Gwasanaethau Cefnogol **o leiaf 5 awr** cyn mae'r sesiwn i fod i ddechrau.
- ◆ Os ydy Defnyddiwr Gwasanaeth yn dymuno dod â'r gwasanaeth i ben, rhaid iddo roi gwybod i'w weithiwr allweddol / person cyswllt neu'r person proffesiynol sy'n gyfrifol am roi'r cynllun gofal yn ei le.



Ffioedd

- ◆ Polisi Cyngor Gwynedd ydy peidio codi tâl am wasanaethau i blant a phobl ifanc sydd o dan 18 oed.
- ◆ Disgwylir i rieni / gofalwyr ddarparu arian i'r plant / pobl ifanc allu cymryd rhan mewn gweithgareddau - a phrynu bwyd neu ddiod.



Absenoldebau a Salwch

- ◆ Ni fydd gwasanaeth yn cael ei ddarparu yn ystod salwch byr-dymor neu wyliau Gweithiwr Cefnogol, oni bai fod asesiad yn nodi bod y ddarpariaeth yn angenrheidiol. Pan fydd absenoldebau hirach (mwy na phythefnos) byddwn yn ceisio darparu Gweithiwr Cefnogol arall, os yn ymarferol bosib.

...../.....

- ◆ Ni fydd gwasanaeth yn cael ei ddarparu ar wyliau banc a gwyliau statudol, oni bai fod asesiad yn nodi bod y ddarpariaeth yn angenrheidiol.



Taflenni Amser

- ◆ Rhaid i riant / gofalwr neu'r person ifanc arwyddo taflen amser Gweithiwr Cefnogol ar ddiwedd pob sesiwn er mwyn cadarnhau bod yr oriau sy'n cael eu hawlio wedi eu derbyn.
- ◆ Rhaid i'r Gweithiwr Cefnogol ddychwelyd taflenni amser i'r swyddfa weinyddol bob wythnos.
- ◆ Yn ogystal, rhaid i'r Gweithiwr Cefnogol gwblhau Adroddiad Sesiwn ar ddiwedd pob sesiwn er mwyn i'r Gwasanaeth allu monitro cynnydd a chael gwybod am unrhyw broblemau cyn gynted ag y bo modd.



Meddyginiaeth

Y rhiant neu'r gofalwr ddylai roi pob meddyginiaeth i'r plentyn / person ifanc, ac nid y Gweithiwr Cefnogol. Mae polisi'r Cyngor yn caniatáu i feddyginiaeth gael ei rhoi mewn argyfwng (ar gyfer epilepsi) ond dim ond pan fydd y Gweithiwr Cefnogol wedi derbyn hyfforddiant personol a phenodol ar gyfer gwneud hynny.

Iechyd a Diogelwch Gweithwyr

Mae Gweithwyr Cefnogol yn derbyn cyngor am faterion iechyd a diogelwch ac yn cael eu hyfforddi yn y maes. Rhaid i Ddefnyddwyr Gwasanaeth a'u teuluoedd alluogi a gadael i weithwyr ddilyn y canllawiau hyn bob amser.



Absenoldeb Rheolwr Cofrestredig (Rh.27)

Pan fo'r Rheolwr Cofrestredig yn absennol am fwy na 28 diwrnod, rhaid i'r Darparwr Cofrestredig roi gwybod i swyddfa leol AGGCC yn ysgrifenedig gan nodi manylion ynglŷn â'r absenoldeb a'r trefniadau amgen sydd yn eu lle.



Dim ond Gweithwyr Cefnogol wedi'u cyflogi gan Adran Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Gwynedd - ac sydd wedi cael gwiriad CRB manylach - sy'n darparu gwasanaeth trwy Wasanaethau Cefnogol 'Derwen'.

STRWYTHUR Y GWASANAETH

UWCH REOLWR GWASANAETHAU PLANT
(Darparwr Cofrestredig)



RHEOLWR GWASANAETH
Derwen



RHEOLWR
GWASANAETHAU CEFNOGOL
(Rheolwr Cofrestredig)

Gweinyddol

ARFON
01286 674686

SWYDDOG
GWASANAETHAU
CEFNOGOL

GWEITHWYR
CEFNOGOL

MEIRIONNYDD
01341 424503

SWYDDOG
GWASANAETHAU
CEFNOGOL

GWEITHWYR
CEFNOGOL

DWYFOR
01758 704429

SWYDDOG
GWASANAETHAU
CEFNOGOL

GWEITHWYR
CEFNOGOL

Sut i Gysylltu Hefo Ni

- ◆ Mae staff tîm Derwen yn gweithio mewn tair swyddfa yng Ngwynedd - yn Arfon, Dwyfor a Meirionnydd. Mae rhifau ffôn y swyddfeydd yma'n cael eu nodi uchod. Os na fydd y Swyddog neu'r Rheolwr Gwasanaethau Cefnogol ar gael i dderbyn eich galwad mae'n bosib gadael neges.
- ◆ Mewn argyfwng y tu allan i oriau gwaith mae'n bosib ffonio'r *Tîm Argyfwng Tu Allan i Oriau Gwasanaethau Cymdeithasol a Digartrefedd* ar 01248 353551.

Sylwadau, Cwynion a Chanmoliaeth

- ◆ Gall Defnyddwyr Gwasanaeth a'u teuluoedd gysylltu ag unrhyw swyddfa 'Derwen' i fynegi eu barn.
- ◆ O bryd i'w gilydd bydd holiadur yn cael ei anfon at Ddefnyddwyr Gwasanaeth i holi barn am y gwasanaeth.
- ◆ Gall Defnyddwyr Gwasanaeth sy'n dymuno gwneud unrhyw sylwadau neu gwynion am y gwasanaeth gysylltu â'r Swyddog Gwasanaethau Cefnogol, Rheolwr Gwasanaeth Derwen, neu gyda Rheolwr Gwasanaethau Cefnogol Derwen yn:

Bron Hendre, Lôn Parc,

Caernarfon,

LL55 2HP



01286 674686

Neu gyda:

Swyddog Gofal Cwsmer,

Adran Gwasanaethau Cymdeithasol Gwynedd,

Swyddfeydd Cyngor Gwynedd, Stryd y Jêl,

Caernarfon, LL55 1SH.

- ◆ Mae Arolygaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru yn gyfrifol am gofrestru ac archwilio asiantaethau sy'n darparu gofal cartref. Gallwch gysylltu â nhw trwy swyddfa AGGCC yn:

AGGCC Rhanbarth Gogledd Cymru,

Swyddfeydd y Llywodraeth, Sarn Mynach,

Cyffordd Llandudno,

LL31 9RZ

neu



0300 062 5609.